

SL(6)020 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ("gwledydd a thiriogaethau esempt"). Mae Rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Mae Rheoliad 3 yn ychwanegu Anguilla, Antigua a Barbuda, Ynysoedd Balearig, Barbados, Bermuda, Tiriogaeth Antarcig Prydain, Tiriogaeth Cefnfor India Prydain, Ynysoedd Virgin Prydain, Ynysoedd Cayman, Dominica, Grenada, Madeira, Malta, Montserrat, Pitcairn, ac Ynysoedd Turks a Caicos i'r "rhestr werdd" o wledydd a thiriogaethau.

Gwaherddir personau nad ydynt wedi'u hesemptio rhag dod i mewn i Gymru os ydynt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o fewn y 10 diwrnod olaf ar ôl cyrraedd. Mae Rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu Gweriniaeth Dominica, Eritrea, Haiti, Mongolia, Tiwnisia ac Uganda at y "rhestr goch" o wledydd a thiriogaethau.

Mae Rheoliad 5 yn diwygio'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i ddiwygio testun rhagnodedig y cyhoeddiad gwybodaeth iechyd cyhoeddus wrth deithio y mae'n ofynnol i weithredwyr ei ddarparu i deithwyr sy'n cyrraedd Cymru ar wasanaethau perthnasol i gyfeirio'n benodol at y gofynion profi ar ôl cyrraedd sy'n gymwys.

Gweithdrefn

Gwneud Negyddol.



Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad sy'n fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y cafodd ei osod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: Craffu

Nodwyd y pum pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 28 Mehefin 2021.

Mae'r llythyr yn esbonio:

"Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyriad posibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."

Mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn cyffwrdd ag unrhyw un o'r hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Ac, i'r graddau y gellir cyffwrdd ag unrhyw



hawliau o'r fath, mae'r Llywodraeth o'r farn bod yr ymyrraeth yn fach iawn ac y gellir ei chyfiawnhau fel bod yn angenrheidiol ac yn gymesur i gyflawni nod dilys. Nid yw'r diwygiadau i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd a wneir gan y Rheoliadau hyn yn newid y ffordd y maent yn cyffwrdd â hawliau unigol."

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

Nodir bod y Rheoliadau hyn yn diwygio'r gofynion i ddarparu gwybodaeth i deithwyr sy'n cyrraedd Cymru. Yn absenoldeb ymgynghoriad cyn gwneud y Rheoliadau hyn, gofynnir i'r Llywodraeth egluro pa gamau, os o gwbl, a gymerwyd i wneud gweithredwyr yn ymwybodol o'r newidiadau hyn cyn iddynt ddod i rym, i sicrhau y gallai gweithredwyr gydymffurfio â'r gyfraith, fel y'i diwygiwyd.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae Rheoliad 5 yn diwygio'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i ddiwygio testun rhagnodedig y cyhoeddiad gwybodaeth iechyd cyhoeddus wrth deithio y mae'n ofynnol i weithredwyr ei ddarparu i deithwyr sy'n cyrraedd Cymru. Roedd y cyhoeddiad blaenorol wrth deithio ynghylch gwybodaeth iechyd y cyhoedd, fel y nodwyd yn flaenorol yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd, yn cynnwys y testun a ganlyn:

"Camau syml y gallwch eu cymryd i helpu i'ch diogelu chi eich hun a'ch teulu yw:

Gwisgo mwgwd; golchi eich dwylo; osgoi cyffwrdd eich wyneb â'ch dwylo; cadw pellter cymdeithasol; dal peswch a thisian mewn hances bapur a'i gwaredu ar unwaith."

Mae Rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn dileu'r testun hwn o'r Atodlen ddiwygiedig i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd. Gofynnir i'r Llywodraeth egluro pam na fydd y testun hwn bellach yn rhan o'r cyhoeddiad iechyd y cyhoedd y mae'n ofynnol i weithredwyr ei roi i deithwyr sy'n cyrraedd Cymru ar wasanaethau perthnasol, yn enwedig gan fod gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do (gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus) yn ofyniad cyfreithiol yng Nghymru.

5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio na chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.



Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:

Mae'r Llywodraeth yn cadarnhau i weithredwyr ledled y DU gael eu hysbysu ar 25 Mehefin 2021 am y bwriad i ddiweddarau'r rheoliadau ynghylch darparu gwybodaeth i deithwyr fel y byddai'n ofynnol hefyd i weithredwyr yn y dyfodol hysbysu teithwyr am y rhwymedigaethau newydd mewn perthynas â phrofi cyn ymadael. Darparwyd yr wybodaeth hon i weithredwyr yn uniongyrchol drwy sianeli cyfathrebu sefydledig a thrwy sefydliadau sy'n cynrychioli'r diwydiant.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 4:

Gallwn gadarnhau i'r diweddariad hwn gael ei wneud i'r geiriad er mwyn alinio'r sefyllfa yn y 4 gwlad, gan ddarparu cysondeb i weithredwyr a theithwyr, tra'n parhau i ofyn i deithwyr ddilyn canllawiau iechyd y cyhoedd lleol. Mae hyn hefyd yn sicrhau y bydd y cyngor yn berthnasol i gyrchfan derfynol teithwyr yn y DU, ac nid i'r man lle y maent yn glanio yn unig, ac y gellir nodi unrhyw newidiadau i'r cyngor iechyd y cyhoedd yn y dolenni perthnasol yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau gael eu diweddarau gyda'r cyngor diweddaraf.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee